Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Sandy Feet Day Nursery**

**Dew Road**
**Port Talbot**
**SA12 7HE**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Sandy Feet Day Nursery

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Sandy Feet Day Nursery Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 27 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy. |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio’r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio’r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn yn Sandy Feet Day Nursery. Maent wedi ymgartrefu ac yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd, y staff a'r ymwelwyr. Mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau am yr hyn y maent am ei wneud. Maent yn nodi'r hyn sydd orau ganddynt ffurfio ymrwymiadau hoffter da gyda'r staff ac yn datblygu cyfeillgarwch â'i gilydd.

Mae'r staff yn wybodus ac yn gymwys. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel a sut i hybu eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio a'r ymddygiad yn gyson ac yn effeithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau i hyrwyddo datblygiad y plant, ac i annog eu chwilfrydedd naturiol yn y byd o'u cwmpas.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn ysgogol i'r plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad at ystod dda o adnoddau ac offer sy'n briodol i'w hoedran, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal gwasanaeth sydd wedi'i drefnu'n eithriadol o dda. Maent yn bodloni'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac yn aml yn rhagori arnynt. Mae ganddynt systemau rhagorol ar waith ar gyfer arfarnu a gwella'u lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llwyddo i reoli'r gwaith recriwtio a'r staff yn dda. Maent yn datblygu partneriaethau hynod gadarnhaol gyda rhieni sydd wrth eu bodd gyda'r gofal mae eu plant yn ei gael.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant gyfleoedd buddiol i wneud dewisiadau am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus, ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb. Er enghraifft, dywedodd plentyn wrth aelod o staff *“Allet ti fy helpu i roi hwn ymlaen os gweli di yn dda?* Atebodd yr aelod o staff, *"Dim problem, gallaf dy helpu.”*

Mae'r plant yn hapus, yn datgan brwdfrydedd, ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae ganddynt ymdeimlad da o berthyn ac maent yn gwybod eu trefniadau arferol yn dda. Mae'r plant yn ymdopi'n dda â gwahanu oherwydd bod ganddynt ymrwymiadau hoffter da gyda’r staff. Er enghraifft, pan oedd plentyn yn teimlo'n ofidus, aeth draw ar unwaith at aelod o staff i gael cwtsh.

Mae’r plant yn rhyngweithio â’i gilydd a gyda'r staff yn dda. Er enghraifft, gofynnodd sawl plentyn i aelod o staff a allent gael cymorth i baratoi gweithgaredd. Dywedodd yr aelod o staff, *"Iawn, wrth gwrs,"* a gwnaethant drafod yr hyn yr oedd angen iddynt ei gael.

Mae'r plant yn dechrau dysgu am gymryd eu tro a chwarae'n gydweithredol gyda'i gilydd. Er enghraifft, mae'r staff yn annog y plant i rannu'r blociau adeiladu mawr. Pan nad oedd un o'r plant eisiau rhannu, soniodd yr aelod o staff am gael dwylo caredig a chwarae gyda'n gilydd, gyda'n ffrindiau. Mae'r plant yn mwynhau chwarae; maent yn llawn cyffro ac yn llawn bywyd, ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunan-arweiniol ac a arweinir gan oedolion am gyfnodau priodol o amser. Mae'r plant yn rhannu eu cyffro gyda'i gilydd a gyda'r staff. Er enghraifft, roedd y plant yn llawn cyffro i fynd ar helfa arth yn yr ardd. Ar ôl iddynt ddod o hyd i'r arth, aethant i ddweud wrth aelod arall o'r staff am eu helfa arth.

Mae'r plant yn mwynhau ystod eang o brofiadau a chyfleoedd sy'n addas i'w hoedran a'u cyfnodau datblygiad. Mae'r plant yn rhannu eu chwarae gyda'r staff ac yn dangos yr hyn maent wedi'i gyflawni â balchder. Mae'r plant yn gwybod y byddant yn cael canmoliaeth a sicrwydd pan fyddant yn gwneud rhywbeth yn dda oherwydd eu bod yn aml yn ceisio eu canmoliaeth. Er enghraifft, galwodd un plentyn ar aelod o staff, pan oedd hi'n chwarae yn y tywod, *“Edrycha beth rydw i wedi'i wneud nawr!”*

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn cwblhau amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant yn aml, ac mae ganddynt brofiad a chymwysterau da. Mae’r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau yn llawn ac yn eu gweithredu'n gyson er mwyn cadw’r plant yn ddiogel a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Maent yn trafod senarios diogelu yn hyderus ac yn dilyn y polisïau a gweithdrefnau perthnasol. Mae'r staff yn cadw cofnodion cynhwysfawr o anghenion unigol y plant mewn perthynas ag alergeddau a'u symptomau a gofynion deietegol eraill. Maent yn dilyn arferion glanhau a gweithdrefnau ymolchi dwylo yn drylwyr, ac maent yn siarad â'r plant ynglŷn â pha mor bwysig yw gofalu amdanynt eu hunain yn yr haul.

Mae'r staff yn gynnes, yn sylwgar ac yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant. Maent yn gwrando ac yn parchu safbwyntiau'r plant. Er enghraifft, pan ddywedodd plentyn nad oedd am gymryd rhan mewn gweithgaredd penodol, atebodd aelod o staff, *“Mae’n iawn os nad wyt ti'n teimlo fel gwneud hynny heddiw.”* Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Er enghraifft, pan ddringodd plentyn i ben rhywbeth (na ddylid ei ddringo), gwnaeth aelod o staff ei annog yn dyner ond yn gadarn i beidio ag ymddwyn fel hyn ac esboniodd y rheswm i’r plentyn: *“Gadewch i ni beidio ag eistedd yno oherwydd nad ydyn ni eisiau i ti syrthio a brifo dy hun, ydyn ni? ?* Mae’r staff yn defnyddio canmoliaeth i atgyfnerthu ymddygiad da, gan rannu geiriau o gefnogaeth ac anogaeth gyda’r plant; *“Da iawn!”,* “*Gwaith da!”* ac *“Mae hynny’n anhygoel!”* Maent yn defnyddio technegau tynnu sylw ac ailgyfeirio, megis ymyrryd yn briodol pan fo’r plant yn anghytuno. Er enghraifft, awgrymodd y staff y gallai'r plant ddefnyddio adnoddau byd bach eraill pan oedd gwrthdaro rhyngddynt. Rhoddodd yr aelod o staff ganmoliaeth i'r plant pan wnaethant ddatrys yr anghytundeb a chwarae gyda'i gilydd; *“Da iawn chi, mae hwn yn chwarae hyfryd gyda'ch gilydd!”*

Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad y plant. Maent yn cyfrannu syniadau ar gyfer cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion unigol y plant oherwydd eu bod yn adnabod y plant yn dda. Mae'r staff yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynyddu sgiliau a galluoedd unigol pob plentyn. Maent yn arsylwi ar y plant i gefnogi eu gwaith cynllunio, ac i ddatblygu dealltwriaeth pob plentyn drwy ofyn cwestiynu priodol ar gyfer eu datblygiad. Er enghraifft, pan ofynnodd plentyn, *“Beth yw'r sŵn yna?* Anogodd yr aelod staff y plentyn i feddwl beth allai fod yn gwneud y sŵn yn gyntaf, drwy ymateb *“Beth wyt ti'n feddwl yw e?”* Meddyliodd y plentyn cyn ateb, **“***Rwy'n meddwl mai peiriant torri lawnt yw e fel sydd gan fy nhad!”* Yna, canmolodd yr aelod o staff y plentyn, *“Ie, dwi'n meddwl dy fod ti'n iawn, da iawn ti!”* Mae'r staff yn cynllunio'n bwrpasol i gefnogi dealltwriaeth y plant am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, gwelsom fod nifer o ardaloedd yn y lleoliad wedi’u neilltuo ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar ac ysgogol. Mae systemau rhagorol ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn saff. Er enghraifft, maent yn cadw'r drysau ar glo bob amser ac yn cofnodi manylion ymwelwyr. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau ei fod yn edrych yn lân ac mae asesiadau risg helaeth ar waith. Maent yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw effeithiol ac yn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch a llesiant y plant, a'u lleihau. Er enghraifft, roedd y tystysgrifau gwresogi, tân a thrydan i gyd yn gyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cofnodi'r manylion yn briodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad yn loyw, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r ystafelloedd chwarae yn olau gydag arddangosfeydd lliwgar ynghyd â gwaith celf y plant yn cael ei arddangos. Mae'r amgylchedd dan do yn rhoi rhyddid i'r plant archwilio'n annibynnol. Mae gan y lleoliad gegin neilltuedig, yn ogystal ag ardaloedd lle mae gan y plant ifanc le i gysgu a chael amser tawel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cefnogi annibyniaeth y plant ac yn hybu cymdeithasu drwy ddarparu byrddau, cadeiriau a chadeiriau uchel sy'n briodol i'w datblygiad. Mae ardal y toiledau a'r ardal newid cewynnau yn darparu preifatrwydd ac urddas i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn dda, fel ei fod yn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer bron pob ystod oedran.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae o ansawdd da sy'n addas ar gyfer yr holl ystodau oedran y gofalir amdanynt. Er enghraifft, gweithgareddau synhwyraidd, chwarae meddal, chwarae rôl a chwarae anniben, yn ogystal ag ardaloedd tawel ar gyfer darllen. Mae unedau storio lefel isel sy'n ei gwneud yn hawdd i'r plant gyrraedd yr adnoddau yn annibynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach ac maent yn hyrwyddo amgylchedd awyr agored diogel â chyfarpar yn dda.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref ar gyfer y gwasanaeth, y maent yn ei rhannu gydag eraill. Mae ganddynt gyfres helaeth o bolisïau a gweithdrefnau, y maent yn eu hadolygu'n aml ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn yn ymarferol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben effeithiol a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn casglu, yn cofnodi ac yn monitro'r holl gofnodion gofynnol yn gyson ac yn gwneud gwelliannau pan fo angen. Er enghraifft, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithredu'r holl argymhellion o'u harolygiad blaenorol. Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, drwy osod disgwyliadau uchel, ac yn ysbrydoli ac yn arwain eu tîm yn effeithiol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad brosesau rhagorol wrth ymdrin ag unrhyw bryderon. Maent yn myfyrio'n effeithiol ar eu harferion er mwyn gwneud gwelliannau uniongyrchol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cefnogi'r plant i leisio unrhyw bryderon. Er enghraifft, mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i siarad am unrhyw beth a allai fod yn eu poeni, ac mae polisi a thaflen gofnodi ar wahân ar waith i gefnogi'r plant sydd eisiau rhannu adborth gyda'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithredu prosesau hunanwerthuso ystyrlon. Maent yn ceisio awgrymiadau gan y plant, eu rhieni, eu gofalwyr a'r staff yn rheolaidd ac yn gweithredu arnynt. Maent yn llunio adroddiad ansawdd gofal helaeth, sy'n amlygu cryfderau, meysydd i'w gwella a chynllun gweithredu i ddatblygu'r lleoliad ymhellach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn i ddiogelu'r plant yn gyson. Maent yn gweithredu gweithdrefn sefydlu effeithiol ar gyfer yr holl staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr yn llwyddiannus. Mae goruchwyliaeth ystyrlon reolaidd ac arfarniadau blynyddol yn rhan annatod o'u harferion ac yn ysgogi gwelliant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr a'u bod yn hapus iawn yn eu gwaith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus ac yn modelu hyn i'w staff. Maent yn defnyddio'r staff yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni cymarebau staffio ac anghenion unigol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu gyda'r rhieni yn hynod effeithiol. Mae ganddynt gontractau a chaniatâd ar waith ac maent yn cadw'r holl wybodaeth berthnasol i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu rhieni'n dda iawn drwy ap ar-lein. Mae'r rhieni'n hapus iawn gyda'r lleoliad, ac yn teimlo bod y staff bob amser yn gyfeillgar ac yn gadarnhaol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cryf ag ystod eang o weithwyr proffesiynol ac maent yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gyson i'r wybodaeth a'r cyngor a roddir iddynt er mwyn gwella llesiant y plant ac i nodi unrhyw anghenion. Maent yn sicrhau, pan fo pryderon am gynnydd neu ddatblygiad plentyn, bod gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a darparu cefnogaeth. Dilynir y rhain yn gyson, ac mae'r plant wedi elwa ar y camau a gymerwyd.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ni wnaeth AGC gyhoeddi unrhyw argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i'r plant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 07/09/2022